# Yr her:

Mae mis Mai yn dod â Chymru ynghyd i holl fwrlwm Eisteddfod yr Urdd. Eleni, cawn Eisteddfod T – i ti, o'r tŷ! Bydd yna ganu ac adrodd ac wrth gwrs, cystadlaethau ysgrifennu. Pwy fydd yn ennill y goron am y gerdd orau?

Beth am ddysgu mwy am Gymru, yr ardal leol a'i enwogion?



## Pwyntiau trafod i rieni:

- Ydych chi'n gallu dod o hyd i Gymru ar fap?
- Beth yw eich hoff  fand/artist Gymreig?
- Beth yw rhai o fwydydd traddodiadol Cymru?
- Pam fod cestyll yn bwysig i'r Cymry?
- Pam daeth y Ddraig Goch  yn faner genedlaethol Cymru?
- Pwy yw arwyr Cymru? Ydych chi'n gallu eu henwi?

| Cynllun pythefnos: Cymru (Bl 5 & 6) | | |
|---|---|---|
| Rhaid gwneud... / Must do... | | |
| • Dysgu geiriau aml-ddefnydd – rhestr o 200 o eiriau ar wefan yr ysgol i'w ymarfer.<br>• Darllen yn reolaidd– cofiwch drafod yr hyn a ddarllenoch – cymeriadau, rhagfynegiadau, trefnu digwyddiadau, ail-ddweud y stori, chwilio am ystyr geiriau anghyfarwydd. | • Ymarfer Tablau Mathemateg (cofiwch i ddefnyddio TT Rockstars a J2Blast i ymarfer a chwarae yn erbyn eraill)<br>• Bl 5 a 6 - Tabl 2 - 12<br>• Adio a thynnu<br>• Bl 5 i ddefnyddio rhifau 4 digid ee 3, 498 + 2,538 = / 5,794 – 3, 562<br>• Bl 6 i ddefnyddio rhifau 4 digid a degolion e.e. 4.6 + 2.3 / 7.9 -3.2<br>• Blwyddyn 5 a 6 - Matiau gweithdrefnol<br>• Lluosi a rhannu gyda 10, 100 a 1000<br>• Bl 5 i ddefnyddio rhifau 3 digid ee 280, 490,450, 654 | Cadw'n heini – beth am ymuno â Joe Wicks' yn fyw sessions 9:00 – 9:30am ar Youtube (cofwch ofyn am ganiatad rhieni i fynd ar 'YouTube')<br>Helpu – Beth am helpu o amgylch y tŷ? e.e. gwneud eich gwely, gosod y bwrdd, helpu yn yr ardd ayyb.<br>Trafod - Sgwrsio gyda'ch rhieni am eich diwrnod a sut rydych yn teimlo. |

| | | |
|---|---|---|
| | • Bl 6 i ddefnyddio rhifau 3 digid a degolion ee 456,732, 23.5, 12.2<br>• Adnabod a chyfri arian, talu am eitemau mewn nifer o ffyrdd<br>• Darllen yr amser fesul munud.<br>• Faint o amser mae rhywbeth yn para? ee. Pa mor hir mae rhaglenni teledu? - edrych ar amser dechrau a gorffen. Pa mor hir mae hi'n cymryd i goginio rhywbeth?<br>• Amcangyfrif pa mor hir mae gweithgareddau pob dydd yn eu cymryd. | |
| Dylech wneud... / Should do... | | |
| **Gorsaf Iaith** | **Cyfri a Chyfrifo** | **Cwtsh Creadigol** |
| ★ Creu Haiku.<br>Ysgrifennwch haiku am Gymru neu am unrhywbeth sy'n gysylltiedig gyda Chymru, ee. cestyll, cenhinen pedr, rygbi, a.y.b. Cofiwch ddilyn y drefn brawddegau: 5 sill, 7 sill, 5 sill. | ★ Gwnewch restr o drefi adnabyddus Cymru. Defnyddiwch google maps, neu AA Routefinder i ddarganfod pa mor bell i ffwrdd ydynt. Rhowch nhw mewn trefn o'r agosaf i'r pellaf i ffwrdd. Rhowch y wybodaeth mewn tabl ar Spreadsheet yn J2Office. | ★ <u>Tasg 1: Heddwch Dros Gymru</u><br>Ymchwiliwch i symbolau heddwch gan greu darluniau neu collage ohonynt. Dewisiwch un o'r symbolau a thynnwch lun ohono gyda chamera a lanlwythwch eich llun i unrhyw ap 'emoji mosaic app' ar Google. (Bydd eich llun y cael ei ddangos mewn emojis). Trydarwch eich gwaith i safle'r ysgol (@parcytywyn) gan ddefnyddio'r hashnodau #pyt #heddwch |
| ★★ Ysgrifennwch gerdd rhydd am Gymru. Beth am ysgrifennu: cerdd siâp, cerdd ag odl, cwpledi a.y.b. Cyflwynwch eich gwaith ar Word gan ychwanegu lluniau. (Cofiwch am y text wrap i symud llun). | ★★ Gwnewch restr o afonydd Cymru.<br>Darganfyddwch hyd afonydd Cymru. Trefnwch nhw o'r hiraf i'r byrraf. Pa un yw'r hiraf? Y byrraf? Beth yw'r gwahaniaeth rhwng yr afon hiraf a byrraf? Rhowch y wybodaeth mewn tabl ar Spreadsheet yn J2Office. | ★★ <u>Tasg 2: Heddwch Dros Gymru</u><br>Dewisiwch un o'r symbolau heddwch. Peintiwch eich symbol ar un ochr carreg ac ysgrifennwch 'Cymru Dros Heddwch' ar yr ochr arall. Tynnwch lun ohono a trydarwch eich llun i @parcytywyn gan ychwanegu'r hashnodau #pyt #heddwch |
| ★★★ Mae gan Gymru dipyn o hanes. Beth am ysgrifennu stori am un o'i henwogion neu ail-ysgrifennu chwedl Gymreig? Cofiwch am ansoddeiriau, cymariaethau, idiomau a.y.b. Cyflwynwch eich gwaith ar Word neu J2e5. | ★★★ Gwnewch restr o fynyddoedd Cymru.<br>Darganfyddwch uchder y mynyddoedd. Trefnwch nhw o'r lleiaf i'r mwyaf . Pa un yw'r uchaf? Pa un yw'r lleiaf? Beth yw'r gwahaniaeth rhyngddynt? Pa mor bell ydyn nhw o'ch cartref chi? Rhowch y | ★★★ Dewisiwch gân Gymreig o'r rhestr (taflen ychwanegol). Ewch ati i ffilmio eich hun yn meimio'r geiriau/dawnsio/meimio a dawnsio i'r gan. Lanlwythwch eich fideo i J2Launch. |

| | | |
|---|---|---|
| | wybodaeth mewn tabl ar Spreadsheet yn J2Office. | |
| **Gallaf wneud... / Can do...** | | |
| Heriau LEGO<br>Llyfrau sain David Walliams<br>Newsround – darllen y newyddio diweddaraf<br>ACTIV-I-TI – ar lein o 1:00yp<br>Science experiment<br>Science Investigations – STEM website stemsational.com<br>Adnoddau twinkl–Mynychwch y wefan am ddim<br>www.twinkl.co.uk/offer yn defnyddio côd CVDTWINKLHELPS | Minecraft<br>Cymuned y Sgarlets– Sgiliau Mathemateg<br>Carol Vorderman – mathsfactor<br>Cip ar Fathemateg<br>SGILIAU – gemau i'w chwarae adref<br>Celf Helen Elliot – Pob dydd mercher a Gwener am3:00yp<br>Orielodl – fideo cam wrth gam<br>Criw Celf, Huw Aaron – pob dydd am 3y.p | Dawnsio gyda Oti Mabuse<br>PBSkids.org - Gemau Darllen i blant<br>BBC Bitesize<br>Hour of Code<br>Gwefan TopMarks Mathemateg<br>Gwefan MathsFrame Mathemateg<br>mathsalamanders.com |